# HWB UWCHALED



**Rhannu Gwybodaeth – Sharing Information**

| | |
|---|---|
| **Y Llyfrgell** - Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell a'r Cyfrifiaduron yn adnoddau gwerthfawr iawn i drigolion Uwchaled. Ar hyn o bryd, mae ar agor am 11.5 awr yr wythnos, gyda'r oriau wedi eu rhannu rhwng dydd Mawrth a dydd Iau.<br>Ers mis Ebrill 2023, mae'r 4 Cyngor Cymuned yn Uwchaled wedi bod yn cyfrannu £3,000 rhyngddynt i ddiogelu'r gwasanaeth yma.<br>**Yr Adeilad** - Mae'r adeilad a'r maes parcio ar lês hir-dymor i Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am warchod dyfodol yr adeilad ac yn gyfrifol am ei redeg. Mae 10 Ymddiriedolwr ac mae gan 4 Cymuned Uwchaled o leiaf ddau gynrychiolydd ar fwrdd yr Ymddiriedolwyr ynghŷd â'r Cynghorydd Sir.<br>**Y sefyllfa hyd yma** - Ynghŷd â rhedeg yr adeilad, mae gwaith mawr i'w wneud ar wella cyflwr yr adeilad, y tu mewn a'r tu allan ac mae grant wedi ei dderbyn i ail-wneud y toiled a'r gegin fach. Bydd silffoedd llyfrau modern yn cael eu gosod yn y dyfodol agos yn dilyn derbyn grant UKSPF.<br>**Yn y dyfodol**, bydd angen gwneud ceisiadau am arian i ymestyn yr adeilad, i osod paneli solar, i foderneiddio a phaentio'r adeilad.<br>**Defnydd pellach** - Eisoes mae Cyngor ar Bopeth Conwy yn cynnal sesiynau yn yr adeilad bob yn ail ddydd Gwener a bydd 'syjeri' Cartrefi Conwy yn cael ei gynnal bob yn ail ddydd Iau gan ddechrau ar yr 22ain o Chwefror.<br>**Adnodd i Bawb** – Bydd yr Ymddiriedolwyr yn ymgynghori efo preswylwyr Uwchaled yn y dyfodol agos i ofyn pa ddefnydd arall a gweithgareddau hoffech chi eu gweld yn Hwb Uwchaled.<br><br>Mae Ymddiriedolwyr Hwb Uwchaled wedi ymrwymo i gadw'r Gwasnaeth Llyfrgell ac i ddarparu adnodd i hybu Lles ac Addysg trigolion ein cymunedau.<br>Rydym yn dibynnu ar eich cefnogaeth **chi** i lwyddo.<br><br>**Os nad ydych erioed wedi ymweld â'r Llyfrgell – dewch yn fuan. Mae croeso cynnes yn aros amdanoch a phaned ar fore Mawrth!** | **The Library** - The Library Service and Computers are very valuable resources for the residents of Uwchaled. The Library is open for 11.5 hours a week, with the hours split between Tuesday and Thursday.<br>Since April 2023, the 4 Community Councils in Uwchaled have been contributing a total of £3,000 to protect this service<br>**The Building -** The building and car park are on a long-term lease to Trustees who are responsible for safeguarding the future and the management of the building. There are 10 Trustees with at least two representatives from each of the 4 Uwchaled Communities along with the County Councillor.<br>**The situation so far -** Along with running the building, there is a lot of work to be done on improving its condition, inside and out, and a grant has been received to refurbish the toilet and the kitchenette. Modern bookshelves will be installed in the near future following the receipt of a UKSPF grant.<br>**In the future,** applications will need to be made for money to extend the building, to install solar panels, to modernise and paint the building.<br>**Further use -** Conwy Citizens Advice already holds sessions in the building every other Friday and a Cartrefi Conwy's 'surgery' will be held every other Thursday starting on the 22nd of February.<br>**A Resource for Everyone** – The Trustees will consult with Uwchaled residents in the near future to ask what other uses and activities you would like to see at Hwb Uwchaled.<br><br>The Trustees of Hwb Uwchaled are committed to maintaining the Library Service and to providing a resource to promote the Wellbeing and Education of residents in our communities.<br>To succeed, we depend on **your** support.<br><br>**If you have never visited the Library - come soon. A warm welcome awaits you and a free cuppa on Tuesday mornings!** |